BAGLORIAETH CYMRU
Cyfnod Allweddol 4
Cenedlaethol/Sylfaen

Her y Gymuned – Hyfforddi
Deall ac Atal Digartrefedd

Ar gael i'w asesu o fis Ionawr 2020

© WJEC CBAC Ltd.

HER Y GYMUNED

Deall ac Atal Digartrefedd

PWRPAS

Pwrpas Her y Gymuned yw meithrin sgiliau dysgwyr, gan annog dysgwyr i nodi, datblygu a chymryd rhan mewn cyfleoedd a fydd o fudd i'r gymuned. Fel rhan o Her y Gymuned, bydd y dysgwyr yn meithrin sgiliau penodol ym maes **Cynllunio a Threfnu** ac **Effeithiolrwydd Personol** ac yn eu defnyddio mewn modd priodol.

BRIFF

Credwn fod cartref yn hawl sylfaenol ac yn hanfodol i iechyd a llesiant pobl a chymunedau ond yn anffodus mae digartrefedd yn cynyddu yng Nghymru. Yn 2018/19, daeth 11,715 o gartrefi fynd yn ddigartref, cynnydd o 3.9% ar y flwyddyn flaenorol. O'r rheini, roedd 3,117 yn bobl ifanc 16-24 oed.

Mae llawer o bobl yn meddwl mai digartrefedd yw cysgu ar y stryd ond fel y gwelwch o'r ffeithlun hwn, dim ond un math o ddigartrefedd yw hyn a dim ond rhan o'r broblem ydyw. Mae llawer mwy yn byw mewn llety dros dro, gyda mwy eto yn profi digartrefedd cudd, naill ai'n mynd o soffa i soffa, yn byw mewn hosteli neu'n byw heb gartref mewn ffordd arall ac mae hyd yn oed mwy yn byw mewn risg o ddigartrefedd.

Mae'r rhesymau dros ddigartrefedd yn amrywiol ac yn gymhleth ac mae llawer o sefydliadau yn gweithio'n ddiflino i geisio atal digartrefedd ac i wneud bywyd yn well i'r rhai sy'n profi digartrefedd.

Yn yr her hon hoffem i chi addysgu pobl yn eich cymuned am ddigartrefedd, y rhesymau pam mae pobl yn mynd yn ddigartref, gwaith sefydliadau tai a digartrefedd amrywiol yn ogystal â ffyrdd y gallwch helpu yn eich cymuned. Gallai'r sefydliadau sy'n rhan o'r her hon ddarparu'r holl wybodaeth y byddwch ei hangen i greu eich gweithgareddau yn ogystal â darparu cyfleoedd i chi godi arian a gwirfoddoli.

Fel unigolyn neu aelod o dîm (3-6 aelod) mae'n rhaid i chi dreulio **10 awr** yn cynnal sesiynau **hyfforddi** ar gyfer grŵp neu unigolion yn eich ysgol neu yn eich cymuned leol. Mae'n rhaid i chi ddatblygu gweithgareddau i **hysbysu ac addysgu eraill** ynghylch **deall ac atal digartrefedd.** Wrth baratoi rhaid i chi ystyried sut gallwch ddatblygu ac ymestyn eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o faes y pwnc. Mae'n rhaid i chi gynllunio a threfnu sut byddwch yn cyflawni **10 awr** yn hyfforddi'r gymuned yn weithredol.

Gellid strwythuro'r hyfforddi fel a ganlyn:

a) Paratoi ar gyfer sesiynau hyfforddi (uchafswm o 2 awr)

© WJEC CBAC Ltd.

b) Sesiynau hyfforddi (8 awr)
c) Adborth

Enghraifft o weithgareddau hyfforddi:

a) Paratoi taflenni gwaith a gweithgareddau ar **ddeall ac atal digartrefedd.**
b) Sesiynau hyfforddi i gynnwys amrywiaeth o weithgareddau
c) Derbyn adborth gan gyfranogwyr am y sesiynau. Rhoi adborth i sefydliadau ynghylch faint ohonyn nhw a gafodd eu haddysgu am **ddeall ac atal digartrefedd.**

Wrth i chi gwblhau Her y Gymuned, byddwch yn gallu gweld sut gallwch chi gyfrannu at wella'r gymuned rydych yn byw ynddi yn ogystal â sut gallwch chi a phobl eraill elwa o hyn. Byddwch yn dangos sut gallwch greu a rheoli cynllun gweithredu wrth ddatblygu cyfleoedd ar gyfer y gymuned a gan ddefnyddio adborth gallwch ystyried ac adolygu eich perfformiad personol wrth gynllunio a chyflawni'r gweithgaredd.

Adnoddau: Gofynnwn i bob myfyriwr sydd â diddordeb cwblhau'r her hon i gysylltu â'r Swyddog Datblygu Addysg yn Shelter Cymru i fynegi eich diddordeb education@sheltercymru.org.uk. Gallwn drafod eich syniadau ar gyfer yr her a sut y gallai'r holl sefydliadau helpu.

Manylion Cyswllt:

BAYS @ Barnado's Cymru
BAYS+ @ Info Nation
Gwasnaeth Digartref Pobl Ifanc
47 The Kingsway
Abertawe
SA1 5HG
Tel: 01792 460007
BaysPartnership@barnardos.org.uk
https://b.barnardos.org.uk/yhsbays.htm

Byw yn Annibynnol
meriel.evans@goingitalone.co.uk
http://www.goingitalone.co.uk/

Gwasanaeth Ieuenctid Sir Penfro
Nick.Hudd@pembrokeshire.gov.uk
http://www.ieuenctidsirbenfro.co.uk

Shelter Cymru
Swyddog Datblygu Addysg
education@sheltercymru.org.uk
01792 483002
https://sheltercymru.org.uk/cy/beth-rydym-yn-ei-wneud/addysg/
www.sheltercymru.org.uk

Y Wallich
Canolfan Y Wallich
Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9JF
Cysylltu: 029 2066 8484
www.thewallich.com
dosomething@thewallich.com

Gwasanaeth Atal Digartrefedd Ymhlith Ieuenctid Wrexham
Canolfan Pobl Ifanc Fictoria
13 Stryt yr Allt
Wrecsam
LL11 1SN
YHPS@wrexham.gov.uk
01978 317955

© WJEC CBAC Ltd.